

Diffodd y Sêr - Haf Llewelyn

DISGRIFIO

Gorffennaf yr 21ain, 1917

Annwyl Deulu,

Rwyf yn ysgrifennu atoch gan fawr obeithio eich bod i gyd mewn iechyd yna, fel yr wyf innau. Yr ydym ers ddoe yn teithio trwy wlad wedi'i chreithio'n ddwfn, ac olion rhyfel wedi'i anharddu. Eglwysi a'u tyrau wedi chwalu a threfi cyfan yn furddunod, ond martsio ymlaen sydd raid, ac erbyn hyn rydym wedi gadael Ffrainc o'n holau, ac wedi croesi i wlad fechan Belg.

Ni chaf ddweud, wrth gwrs, lle'n union yr ydym wrthych, gan y byddai hynny'n dwyn sylw'i swyddogion, a does wybod beth y bydden nhw'n ei wneud efo fy llythyr. Felly, digon yw dywedyd ein bod bellach wedi gosod ein gwerysll mewn man digon llaith a budr dan draed. Cawsom ddyddiau braf, ond mae'r tywydd gwlyb a fu, a'r bombardio, wedi troi'r tir yn gors ddigysur. O fy mlaen mae ffos ddu a'i llond o duniau Bully Beef gwag. Maent yn dywedyd wrthyf mai o'r ffos hon yr ydym i godi ein dŵr yfed ond amau hynny yr ydwyf. Daliodd un o'r bechgyn lygoden fawr yn ei sach neithiwr; y maent yn bla yma... a phan arhoswn yn llonydd fe deimlwn eu cyrff yn symud dros ein coesau, neu uwch ein pennau yn sniffio. O, na fyddwn i lawr wrth lan afon Prysor a'i phyllau gloyw, a 'Dim ond lleuad borffor ar fin y mynydd llwm; a sŵn hen afon Prysor yn canu yn y Cwm...'



Sut ddarlun gawn ni o effaith rhyfel yn y paragraff cyntaf?

Pa dechnegau disgrifio a ddefnyddir gan yr awdur yn y paragraff cyntaf?

Pa ansoddeiriau sy'n disgrifio'r gwerysll yn y paragraff hwn?

Ydy'r awdur yn defnyddio'r synhwyrau yn y paragraff hwn? Eglurwch pam eu bod yn effeithiol.

Pa gyferbyniad a welwn yn y paragraff hwn?

